

ASSER (bu farw 909), esgob ac ysgolhaig

Enw: Asser

Dyddiad marw: 909

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob ac ysgolhaig

Maes gweithgaredd: Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awduron: John Edward Lloyd, David Myrddin Lloyd

Ni wyddys fawr ddim o'i hanes heblaw a ddywed amdano'i hun yn ei lyfr ar fywyd y brenin Alfred. Yr oedd yn aelod o glas Tyddewi, lle'i meithrinwyd a'i addysgu, gan ei fod yn perthyn i'r esgob Nobis (bu farw 873). Yn ei dro daeth Asser yntau'n esgob Tyddewi ac enill mawr glod am ei ddysg, ac nid o fewn i ffiniau Cymru 'n unig. Gan hynny, yn 884, neu tua'r adeg honno, fe'i derbyniwyd i wasanaeth Alfred oblegid sêl y brenin hwnnw dros ei addysgu ei hun a'i ddeiliaid. Nid hawdd oedd rhyddhau Asser o'i ddyletswyddau esgobol, ond ar ôl ysbaid a achoswyd yn rhannol gan ei hir afiechyd yng Nghaerwent ar ei ffordd adref, cytunodd i rannu ei flwyddyn rhwng y llys a Thyddewi. Bu cyflwr gwleidyddol Cymru yn un rheswm dros iddo gytuno â'r drefn hon. Yr oedd yr esgobaeth yn agored iawn i ymosodiadau'r tywysog lleol, sef Hyfaidd, brenin Dyfed (bu farw 892), a gobeithid rhoi pen ar hyn gan gyfeillgarwch yr esgob â theyrn grymus Wessex, gwr a oedd yn frenin ar Hyfaidd yntau. Cafodd Alfred ei athro newydd yn gwbl angenrheidiol iddo, a phentyrrodd ffafrau arno, gan roi arno yn y diwedd ofal esgobaeth Sherborne, a gynhwysai Ddyfnaint a Chernyw. Adroddir hyn oll yn y llyfr ar Alfred. Nid oes i'w ychwanegu ddim gwybyddus heblaw ei ddyrchafu'n ddiweddarach yn esgob Sherborne, ac iddo farw yn 909.

Cymysgfa ryfedd yw'r llyfr crybwylledig o groncl a chofnodion personol wedi ei sgrifennu yn Lladin rhetoregol ac anystwyth y cyfnod. Amlwg yw nas gorffennwyd erioed; y dyddiad olaf a grybwyllir yw 893, ond ni pharheir y croncl wedi 887. Gwneir astudiaeth ohono'n anodd gan i'r unig hen lawysgrif gael ei llosgi yn 1731, a chan fewnosodiadau'r golygyddion. Ymhlith y rhain y mae'r darn drwg ei glod am ddadleuon academaidd yn Rhydychen a wwyd iddo gan Camden i brofi hynafiaeth y brifysgol honno. Ymdrinir â'r holl bynciau sy'n codi, a sefydlir testun, gan W. H. Stevenson yn ei argraffiad safonol (Rhydychen, 1904).

Awduron

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 226-8

F. M. Stenton, *Anglo-Saxon England* (1943, 1947), 269, 433

J. W. Adamson, *The Illiterate Anglo-Saxon* (Caergrawnt 1946)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Asser](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [59092589](#)

Wikidata: [Q428905](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

